


Statws gyfreithiol y Gymraeg





Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

'The 1993 Act swept away the last vestiges of the provisions of the sixteenth-century Acts of Union and repealed the earlier twentieth-century statutes which had sought to provide Welsh with some degree of official recognition.'
(Thomas Glyn Watkins, 2019)

● Sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg

● Sefydlu trefn cynlluniau iaith

Y galw am newid...

- Diffyg cysondeb a dim pwerau gorfodi
- Gormod o'r foronen a dim digon o'r ffon
- Angen symud at gyfundrefn gorfodi



Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru

Safonau'r Gymraeg

Sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg






Prif nod statudol y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg

- Rheoleiddio safonau'r Gymraeg
- Gweithio gyda busnesau mawr a'r trydydd sector
- Gwaith ymchwil a safoni enwau lleoedd
- Gwaith dylanwadu ar bolisi


Rôl driphlyg Comisiynydd y Gymraeg





Amdanom ni

5





Safonau'r Gymraeg

- Cyflenwi gwasanaethau
- Llunio polisi
- Gweithredu
- Hybu
- Cadw cofnodion





Safonau'r Gymraeg



140

- Parciau cenedlaethol
- Cyngorau sir
- Llywodraeth Cymru
- Tribiwnlysoedd yng Nghymru
- Heddluoedd
- Gwasanaethau tân ac achub
- Prifysgolion
- Byrddau iechyd



Y Gymraeg fel ffordd o weithio

Adroddiad Sicrwydd 2021-22

Dyma brif ganfyddiadau Comisiynydd y Gymraeg wrth edrych ar y defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau cyhoeddus yn ystod 2021-22.



Caiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn 50% o hysbysiadau am swyddi.



Caiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn 40% o alwadau ffôn.



yn dewis peidio â defnyddio'r Gymraeg am eu bod yn gorfod aros yn hirach i wneud.



yn dweud bod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd wedi cynyddu.



yn dweud bod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle wedi cynyddu.



o'r cynnwys ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol sefydliadau cyhoeddus ar gael yn y ddwy iaith.

84%

o wefannau sefydliadau bellach ar gael yn y Gymraeg.

41%

o blaid defnyddio'r Gymraeg neu wasanaethau dwyieithog.



Mwy o bobl yn debygol o ddefnyddio'r Gymraeg pe bai sefydliadau yn gwneud mwy i hwyluso a gwarantu gwasanaethau Cymraeg.

10%

yn dewis peidio â defnyddio'r Gymraeg oherwydd diffyg argaeledd gwasanaethau.



Codi'r safonau a chamu ymlaen...



1

Mwy o ffocws ar
ddeilliannau yn
hytrach na
phrosesau

2

Mwy o
flaenoriaethu
gweithgareddau
rheoleiddio

3

Datblygu
ymhellach
strategaeth
wirioneddol
rhagweithiol

4

Hwyluso
gwaith
ymchwilio a
gorfodi



Deilliant 1: Sefydliadau â'r capasiti i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel ar bob achlysur



Deilliant 2: Defnyddwyr y Gymraeg yn deall ac yn ymwybodol o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt



Deilliant 3: Sefydliadau'n rhoi sylw dyladwy i effeithiau posibl eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg



Deilliant 4: Sefydliadau'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithle, gan alluogi staff i weithio yn Gymraeg o ddydd i ddydd




Deilliant 5: Sefydliadau'n hyrwyddo'r Gymraeg, fel y gall pobl ddefnyddio'r iaith yn naturiol yn eu bywydau bob dydd



Deilliant 6: Sefydliadau â threfniadau llywodraethu a chwynion effeithiol sy'n sicrhau bod buddiannau defnyddwyr y Gymraeg yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo



Gwaith dylanwadu ar
bolisi a deddfwriaeth



Egwyddorion dylanwadu ar bolisi


- 1 Ffocws ar faterion cenedlaethol a strategol
- 2 Blaenoriaethu meysydd polisi arwyddocaol
- 3 Pwyslais ar waith polisi rhagweithiol

Cydweithio â busnesau ac elusennau






Enwau Lleodedd Safonol Cymru Standardised Welsh Place-names





CYMRITHAS RYNGWLADOL Y COMISIYNWYR IAITH
INTERNATIONAL ASSOCIATION OF LANGUAGE COMMISSIONERS

Dashfwrdd Data: Pwy sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru?



Mae 131 o gyrff bellach yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg

Cymerwyd 280 o gamau i adfer neu orfodi cydymffurfiaeth yn ystod 2023-2024

Ymatebwyd i 22 ymgynghoriad cyhoeddus ym meysydd addysg a sgiliau, cymwysterau, iechyd a gofal, amaeth, darlledu, tai, datblygu economaidd a chymunedau Cymraeg yn ystod 2023-2024

Darparu cyngor arbenigol i Barc Cenedlaethol Eryri, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, gan ddylanwadu ar Arolwg Ordnans i ddiweddaru eu mapiau a'u cronfeydd data â'r ffurfiau safonol

Gwelwyd cynnwys ein hymgyrch Defnyddia dy Gymraeg 110,000 o weithiau ar draws ein platfformau digidol, a chydweithiwyd gyda dros 100 o sefydliadau

Mae 109 o fudiadau o'r sector preifat a'r trydydd sector wedi derbyn ardystiad y Cynnig Cymraeg

79% o ymatebwyr yn cytuno eu bod fel arfer yn gallu delio â sefydliadau yn Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny (sy'n codi i 86% o'r ymatebwyr rhugl)

74% o ymatebwyr yn cytuno bod gwasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus yn gwella

250 wedi mynychu digwyddiadau mewn partneriaeth â'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol i drafod sut y gall sefydliadau cyhoeddus greu cynnwys dwyieithog



Cynllun Strategol Comisiynydd y Gymraeg 2025–30

Cynllun Strategol: 2025 – 2030



Strategaeth sydd yn cynnwys:

- Gweledigaeth
- 3 amcan strategol
- 3 thema arbennig





Iechyd a gofal

Mae gallu defnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau iechyd a gofal yn hollbwysig, yn arbennig gan y byddwn yn aml mewn sefyllfa o wendid pan fyddwn ni'n ceisio derbyn y gwasanaethau hynny. Rydym yn dymuno gweld cynnydd yn y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg â'r sector iechyd a gofal yn gyffredinol, ac â'r elusennau sy'n gweithio yn y sector, gan gynnwys pwyslais ar sicrhau bod pobl yn derbyn gofal clinigol yn Gymraeg.



Y gweithle

Mae'n hanfodol bod siaradwyr Cymraeg sy'n gadael yr ysgol yn parhau i ddefnyddio'r iaith wrth fynd ymlaen yn eu haddysg ac i fyd gwaith. Yr her yw cynnal sgiliau Cymraeg ein pobl ifanc a throi siaradwyr yn ddefnyddwyr tymor hir. Rhan allweddol o sicrhau'r dilyniant ieithyddol hwn yw galluogi pobl i weithio yn y Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae canolbwyntio ar gynyddu defnydd y Gymraeg yn y gweithle â'r potensial i ddylanwadu ar ganfyddiad pobl o bwysigrwydd yr iaith, ar gyfleoedd i fagu hyder ieithyddol, ac ar ddefnydd ehangach o'r Gymraeg yn y gymuned.



Plant a phobl ifanc

Y bobl ifanc sy'n dysgu'r Gymraeg heddiw fydd yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, yn y gymuned ac wrth ddefnyddio gwasanaethau yn y dyfodol. Bydd eu hagweddau at y Gymraeg a'u harferion wrth ei defnyddio yn awr yn effeithio ar eu defnydd o'r Gymraeg yn y dyfodol, a hefyd eu penderfyniadau ynghylch ei throsglwyddo i'r genhedlaeth nesaf. Rydym am weld pob plentyn, waeth beth fo'u cefndir yn teimlo bod y Gymraeg yn perthyn iddyn nhw, a bod gan bawb gyfle cyfartal i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.



Adroddiad 5 mlynedd.....




3 Mawrth 2026.....

comisiynyddygymraeg.cymru

welshlanguagecommissioner.wales

@ComyGymraeg

Diolch yn fawr
Thank you



 Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner